Annwyl Rieni,

Diolch a Phasg Hapus

Ysgrifennaf i ddiolch i chi gyd am eich cydweithrediad dros yr wythnosau diwethaf. Mae wedi bod yn gyfnod heriol i bawb wrth ymgyfarwyddo gyda threfniadau ac arferion hollol wahanol, ond mae eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad wedi gwneud hynny'n llawer haws. Gobeithio'n fawr eich bod chi gyd yn cadw'n ddiogel ac yn iach a'ch bod yn addasu'n raddol bach i'r drefn newydd.

Fel y gwyddoch, mae'r plant wedi cael gwaith cartref i'w wneud dros y pythefnos diwethaf ac mae nifer wedi dechrau ymgyfarwyddo gyda'r dysgu o bellter. Caiff y plant gyfle nawr i ymlacio a mwynhau dros wyliau'r Pasg yna bydd tasgau'n cael eu gosod eto drwy cyswllt dyddiol ar y Dojo.

Ond hoffwn bwysleisio mai iechyd a lles pob un sydd bwysicaf dros y cyfnod hwn – yn blant a rhieni. Rydym am weld pob disgybl a'u teuluoedd yn dychwelyd i'r ysgol yn hapus ac iach pan fydd hyn wedi dod i ben. Mae llawer o sôn yn y cyfryngau am 'addysgu adref' ond rydym yn ymwybodol bod hyn yn anodd i nifer o rieni sy'n gorfod gweithio ar y rheng flaen neu weithio adref eu hunain. Plis peidiwch poeni am hyn. Rydym yn annog ein disgyblion i weithio'n annibynnol yn yr ysgol a'r peth pwysicaf i ni yw bod y plant yn hapus ac yn cadw'n brysur tra eu bod adref. Gall hynny fod trwy wneud gwaith ysgol a hefyd trwy chwarae, darllen, coginio, lliwio a pheintio, ymarfer corff ac ati. Yn amlwg, rydym am annog y plant i wneud y tasgau a osodir ar eu cyfer, ond nid ydym am i hyn achosi unrhyw straen yn y cartref. Ar y llaw arall, os ydych yn chwilio am fwy o waith i'ch plant, gallwch droi at y rhestr o apiau a gwefannau addysgiadol yr ydym yn cyfeirio atynt ar Drydar yr ysgol.

Nid ydym yn gwybod eto pryd bydd yr ysgol yn ail-agor na chwaith beth fydd treniadau wedi'r Pasg. Byddwn yn dilyn cyngor y Llywodraeth a'r Awdurdod Lleol ac yn rhoi gwybod i chi unwaith i ni gael gwybod.

Er ei bod hi'n gyfnod gofidus ac ansicr i bawb, mae hefyd yn gyfnod lle rydym yn gweld y gorau yn ein gilydd wrth i bawb gyd-dynnu a chefnogi ein gilydd. Daw eto haul ar fryn, ond yn y cyfamser rhaid i ni gadw'n gwên trwy'r storm. Dymuniadau gorau i chi gyd am Basg hapus ac iach ac edrychaf ymlaen at eich gweld yn fuan gobeithio.

Dymuniadau gorau,

Mr C Humphreys.

Pennaeth/Headteacher: Mr C Humphreys
YGG Tyle'r Ynn
Llansawel Crescent, Llansawel, Castell Nedd, Nedd Port Talbot, SA112UN

Dirprwy Bennaeth/Deputy Headteacher: Mrs L Vaughan
Ffôn/Phone: 01639 812229
e-bost/e-mail: yggtylerynn@npt.school
Gwefan/Website: http://ygg-tyler-ynn.j2bloggy.com/cy/

Dear Parents,

Thank you and Happy Easter

I would like to thank you all for your co-operation over the past few weeks. It has been a challenging time for everyone as we all adjust to new and different arrangements and we appreciate your support and co-operation very much. We sincerely hope that you're all keeping safe and well and are slowly adjusting to new routines.

As you're aware, the children have received homework activities to do over the past fortnight and many pupils have already been sending their work to the teachers. The children can now enjoy their Easter holidays and we will be posting new tasks on Dojo after the Easter break.

But I would like to emphasise that what's most important during this time is everyone's health and wellbeing – children and parents. We want to see our pupils and families return to school healthy and happy after this is over. There is a lot of talk about 'homeschooling' in the media but we are aware that this is hard for many parents who have to work on the front line or who have their own work to do at home. Please do not worry about this. We encourage our pupils to work independently at school and the what's most important for us is that they are happy and are busy whilst at home. This could be through doing homework or through playing, reading, cooking, colouring and painting, keeping fit, etc. We would like to encourage the children to do the tasks they are given but we don't want this to cause any strain at home. On the other hand, if you're looking for more work for your children, you can turn to the list of websites and apps that we refer to on our Twitter feed.

We don't yet know when the school will re-open or the arrangements for after Easter. We will be following the Government and the Local Authority's advice and will contact you as soon as we know.

Although it's a very worrying and uncertain time for everyone, it's also a time when we see the best in each other as we help and support each other. The sun will shine again, but in the meantime we must try to dance through the rain. We wish you all a healthy and happy Easter and look forward to seeing you all soon hopefully.

Best wishes,

Mr C Humphreys.

Pennaeth/Headteacher: Mr C Humphreys
YGG Tyle'r Ynn
Llansawel Crescent, Llansawel, Castell Nedd, Nedd Port Talbot, SA112UN

Dirprwy Bennaeth/Deputy Headteacher: Mrs L Vaughan
Ffôn/Phone: 01639 812229
e-bost/e-mail: yggtylerynn@npt.school
Gwefan/Website: http://ygg-tyler-ynn.j2bloggy.com/cy/